OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3364

## Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005

## RHAN 5

Apeliadau Treth Cyngor

**Cymrodeddu**

**42.**—(1) Ar unrhyw adeg cyn dechrau gwrandawiad neu ystyriaeth o sylwadau ysgrifenedig gan Dribiwnlys, lle cytunir yn ysgrifenedig rhwng y personau a fyddai'n bartïon i'r apêl, pe digwyddai i anghydfod fod yn destun apêl i'r Tribiwnlys, cyfeirir y mater i gymrodeddiad.

(2) Bydd adran 94 o Ddeddf Cyflafareddu 1996(**1**) yn effeithiol at ddibenion cyfeirio cwestiwn yn unol â'r rheoliad hwn, fel pe bai'r cyfeiriad yn un o gymrodeddiad o dan Ddeddf arall o fewn ystyr yr adran honno.

(3) Yn unrhyw gymrodeddu yn unol â'r rheoliad hwn, gall y dyfarniad gynnwys unrhyw orchymyn allai fod wedi'i wneud gan Dribiwnlys mewn perthynas â'r cwestiwn, a bydd paragraff 10A o Atodiad 11 i Ddeddf 1988 yn berthnasol i orchymyn o'r fath fel y mae'n berthnasol i orchmynion a gofnodwyd yn unol â'r Rhan hon.

(**1**) 1996 p.23.